**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L V Walton (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | A J Jeffery | H Lawson |
| A J O'Connor | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Barrett | Arweinydd Tîm |
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Claire Edwards | Prif Swyddog - Gwasanaethau Comisiynu a Gofal, Plant a Theuluoedd |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Matthew Joyce-Brown | Cyfreithiwr |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Donna Lukes | Arweinydd Tîm, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Helen Williams | Prif Swyddog - Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Evans

---

**24 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**25 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 26 Pan fyddaf yn barod.

Darparodd Helen Williams, Prif Swyddog Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc, yng nghwmni Amy Barrett, Arweinydd Tîm, adroddiad a oedd yn cyflwyno datblygiad gwasanaethau mewn perthynas â phobl ifanc sy'n byw yn nhrefniadau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ymrwymiad, y weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau cefnogi i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn nhrefniadau'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'. Roedd hefyd yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn llywio ein harfer, a sut rydym yn datblygu ac yn addasu'r gwasanaeth os neu pan fydd yr anghenion hyn yn newid.

Mae 'Pan fydda i'n Barod' yn gynllun a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid allweddol yn y sector trydydd parti i alluogi'r rheini sy'n gadael gofal i barhau i fyw gyda'u cyn-ofalwyr maeth ar ôl deunaw oed.  Gall trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' barhau nes bydd y person ifanc yn cyrraedd ei ben-blwydd yn ugain oed neu'n cwblhau ei raglen addysg neu hyfforddiant gytunedig ar ôl ei ben-blwydd yn ugain oed, os oedd wedi bod yn byw yn barhaus yn y trefniant ers ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol, a atebwyd gan y swyddogion yn briodol.

Mewn perthynas â'r Polisi 'Pan fydda i'n Barod' (Atodiad A), awgrymodd y Pwyllgor y dylid ymhelaethu ar y paragraff olaf ond un yn Adran 4 i roi enghreifftiau o'r mathau o ddatblygu sgiliau y gallai person ifanc ymrwymo i'w cyflawni.

**Penderfynwyd:**

1) Bod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi yn nodi'r Polisi 'Pan Fydda i'n Barod'.

## 27 Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd Claire Edwards-Matthews, Prif Swyddog, Gwasanaethau Comisiynu a Gofal, gyda chefnogaeth Donna Lukes, Rheolwr Tîm adroddiad "Er Gwybodaeth" a oedd yn cyflwyno datblygiad gwasanaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn trefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

Eglurodd y ddwy bod Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) yn darparu statws cyfreithiol amgen i blant a theuluoedd, gan gynnig mwy o ddiogelwch na lleoliadau maethu tymor hir ond heb y toriad cyfreithiol o'r teulu biolegol a ddeilliodd o Orchymyn Mabwysiadu. Yn bwysicaf oll, roedd yn sicrhau bod plant yn cael cynnig y cyfle i dyfu i fyny a derbyn gofal o fewn eu rhwydwaith teuluol a byddai gan y Gwarcheidwad Arbennig gyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Amlinellwyd gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol ac arweiniad ymarfer ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn y Polisi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn Atodiad A.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau amrywiol, a atebwyd gan y swyddogion yn briodol.

Gofynnodd y Cadeirydd i Adolygiad Datblygu'r Gwasanaeth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA) yn Atodiad B gael ei e-bostio at bob Cynghorydd fel eu bod yn ymwybodol o'r meysydd datblygu blaenoriaeth clir a nodwyd i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u rhwydweithiau teuluol.

**28 Cynllun Gwaith 2023-2024.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd nad oedd eitem wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 15 Ionawr 2024 ar hyn o bryd. Roedd trafodaethau'n parhau, a byddai'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru maes o law ynghylch a fyddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen.

**Penderfynwyd** bod y cynllun gwaith yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.37 pm

**Cadeirydd**